Oscar Romero: 1917–1980

Archesgob yn cael ei saethu

Gofal / gosod esiampl / dewrder

Tybed ydych chi'n berson dewr? Fyddech chi'n mynd i ystafell dywyll yn y nos? Neu tybed fyddech chi'n gafael mewn neidr wenwynig neu bry copyn tarantwla? Na, mae'n siŵr fyddai'r ateb. Mae'r stori hon yn sôn am ddyn oedd yn Archesgob. Fe safodd yn gadarn dros bopeth oedd yn dda. Pethau roedd Iesu Grist wedi eu dweud wrth ei ddisgyblion. Roedd Oscar Romero yn berson dewr iawn. Doedd ganddo ddim ofn y rhai oedd yn elynion iddo.

Roedd Romero yn Archesgob ar ran o wlad El Salvador yn Ne America. Pan oedd yn pregethu byddai bob amser yn rhoi neges fyddai'r bobl yn ei deall. Roedd gan y bobl feddwl y byd o'r Archesgob. Roedd yn ddyn caredig oedd bob amser yn gofalu am bobl mewn angen.

Un noson ym mhrifddinas El Salvador, sef San Salvador, mae'r Archesgob yn cynnal gwasanaeth arbennig. Yr enw ar y gwasanaeth hwn ydi'r Offeren. Gwasanaeth ydoedd i gofio am yr hyn a ddigwyddodd i Iesu Grist yn ystod ei ddyddiau olaf ar y ddaear. Roedd hefyd yn wasanaeth i gofio am fam ei ffrind gorau.

Yn y papurau newydd ac ar y strydoedd roedd posteri i ddweud wrth y bobl am ddod i'r gwasanaeth arbennig hwn. Ond roedd pobl yn amau a oedd yr Archesgob wedi gwneud peth doeth. Roedd ganddo nifer mawr o elynion. Beth petai rhywbeth yn digwydd?

Roedd y gwasanaeth yn cael ei gynnal mewn ysbyty yn y ddinas. Ar ôl darllen Salm 23, "Yr Arglwydd yw fy mugail..." daeth nifer o ddynion i mewn i'r capel. Ar ôl iddo orffen ei bregeth, fe ddechreuodd rhywun saethu. Roedd yr Archesgob yn sefyll wrth yr allor.

Fe syrthiodd i lawr o flaen yr allor. Roedd pawb oedd yn y capel mewn ofn mawr. Rhedodd lleian i fyny at yr allor i geisio helpu'r Archesgob ond roedd hi'n rhy hwyr. Roedd Romero wedi ei saethu'n farw. Am ei fod wedi siarad yn ddewr yn erbyn ei elynion, roedden nhw wedi troi arno a'i ladd.

Er i'r meddygon yn yr ysbyty gael eu galw ar frys i'r capel doedd yna ddim y gallen nhw ei wneud. Roedd Romero wedi ei

saethu trwy ei galon. Bu farw yn y fan a'r lle. Ar ôl i hyn ddigwydd, bu cynnwrf mawr yn y ddinas.

Mae pobl yn dal i gofio amdano hyd heddiw.

"Er i mi gerdded trwy ddyffryn tywyll, du,
nid ofnaf unrhyw niwed,
oherwydd yr wyt ti gyda mi,
a'th wialen a'th ffon
yn fy nghysuro."

Salm 23:4

Yr atgasedd sy'n gwahanu cenedl oddi wrth genedl, llwyth oddi wrth lwyth, dosbarth oddi wrth ddosbarth,
O Dad, maddau.
Awydd trachwantus cenhedloedd
i feddiannu yr hyn nad yw'n eiddo iddynt hwy,
O Dad, maddau.
Amen.

(Gweddi o Eglwys Gadeiriol, Coventry)

Sut y byddech chi'n disgrifio dewrder Oscar Romero?

Oscar Romero: 1917–1980